# Cylchlythyr / Newsletter

**Tymor yr Hydref (Hanner Tymor 2) 2023** | Autumn Term (Half Term 2) 2023




## Neges Gan y Pennaeth / Message From the Headteacher

**Hoffwn ddiolch i'n plant bendigedig am eu perfformiadau gwych yn ein cyngherddau Nadolig diweddar. Rwyf mor falch o bob un ohonynt. Hoffwn ddiolch i chi rieni am eich cefnogaeth ddiwyro i'n hysgol eleni. Mae'r staff a minnau wir yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad. Mae'r ysgol wedi bod yn brysur gyda llawer o weithgareddau hwyliog yn ystod mis Rhagfyr a hoffwn ddiolch i'n CRhA gwych am eu cymorth. Gobeithio y cawsoch chi i gyd Nadolig llawen iawn a blwyddyn newydd dda a iachus.**

*I would like to thank our wonderful children for their excellent performances in our recent Christmas concerts. I am so proud of each and every one of them.*
*I'd like to thank you parents and guardians for your unwavering support of our school this year. The staff and I genuinely appreciate your cooperation.*
*The school has been busy with many fun activities during December and I would like to thank our brilliant PTA for their help with these events.*
*I hope you all had a very merry Christmas and a happy and healthy new year.*

**Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod**
Pennaeth: Mr. Jamie Hallett | Dirprwy Bennaeth: Mr. Aled Hopton
Ffôn: 01443 875528 | E-bost: ygbpa@caerphilly.gov.uk | Trydar: @yggf123

# Newyddion
# Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod

## Ffair Cynnyrch

Bu ein disgyblion yn brysur wrth eu gwaith yn creu cynnyrch ar gyfer y Nadolig yn eu gwersi Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Braf hefyd oedd gweld disgyblion hŷn yr ysgol yn defnyddio eu sgiliau rhifedd i ddarganfod costau cynhyrchu, prisiau gwerthu ac elw.

Agorwyd drysau'r ysgol i'n rhieni a'n gwarchodwyr er mwyn iddynt ddod i weld a phrynu cynnyrch eu plant. Roedd lluniaeth Nadoligaidd ar gael hefyd a chafwyd amser gwerth chweil gan bawb yn cymdeithasu a mwynhau gweld gwaith ein disgyblion. Fel disgyblion a staff, hoffem ddiolch o galon i rieni a gwarchodwyr am eu cefnogaeth gyda'r digwyddiad.











## Nadolig yn y Gymuned

Mae ein diolch yn aruthrol i'n disgyblion penigamp a fu'n perfformio yn y gymuned yn ystod mis Rhagfyr. Bu ein disgyblion yn canu yn Cartref Gofal Bargod, Morrisons Bargod a Chlwb Gweithwyr Gilfach (i henoed y gymuned). Roedd ein disgyblion yn hynod yn ystod yr holl berfformiadau ac rydym fel staff yn falch dros ben o'u hymddygiad, brwdfrydedd a haelioni. Da iawn chi, blant!



## Newyddion

# Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod





### Produce Fair

Our pupils have been busy at work creating produce for Christmas in their Science and Technology lessons. It was also nice to see the school's older pupils using their numeracy skills to find out production costs, selling prices and profits.

The school doors were opened to our parents and guardians so that they could come and view and buy their children's products. Festive refreshments were also available and everyone had a worthwhile time socializing and enjoying seeing the work of our pupils. As pupils and staff, we would like to thank parents and carers from the bottom of my heart for their support with the event.









### Christmas in the Community

Our thanks are enormous to our excellent pupils who performed in the community during the month of December. Our pupils sang at Bargoed Care Home, Bargoed Morrisons and Gilfach Workingmen's Club (for the community's senior citizens). Our pupils were exceptional during all the performances and we as staff are extremely proud of their behaviour, enthusiasm and generosity. Well done, children!


# Y Siarter Iaith

## Ein Targedau Siarter Iaith / Our Siarter Iaith Targets

| | |
|---|---|
| Targed 1<br>Target 1 | Siarad mwy o Gymraeg tu allan i'r ysgol<br>*Use more Welsh outside of school* |
| Targed 2<br>Target 2 | Gwrando ar fwy o gerddoriaeth Cymraeg<br>*Listen to more Welsh music* |
| Targed 3<br>Target 3 | Gwylio mwy o raglenni Cymraeg<br>*Watch more Welsh programmes* |
| Targed 4<br>Target 4 | Siarad mwy o Gymraeg ar yr iard ac yn y coridorau<br>*Speak more Welsh on the yard and in the corridors* |
| | |
| Targed 5<br>Target 5 | Defnyddio apiau a thechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg<br>*Use more Welsh apps and technology* |

## Y Gornel Ddysgu / The Learning Corner

Hello! - Shwmae!
Good morning - Bore da
Good afternoon - Prynhawn da
Good evening - Noswaith dda
Good night - Nos da
How are you? - Sut wyt ti?
May I have...? - Ga i...?



## Ein Pigion Cerddorol / Our Musical Playlist

Harbwr Diogel (Elin Fflur)
Coffi Du (Gwibdaith Hen Fran)
Y Cwm (Huw Chiswell)
Hei Mistar Urdd (Mei Gwynedd)

## Ap y mis



Campau Cosmig

Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Her Seren a Sbarc

Dyma **'Her Seren a Sbarc'** mis **Ionawr**. Cofiwch i drydaru eich ymdrechion ar Trydar a chynnwys @yggf123 gyda'r hashnod #siarteriaithyggf

*Here is the '**Her Seren a Sbarc (Seren & Sbarc Challenge)** for the month of **Ionawr (January)**. Please remember to tag us on Twitter in your efforts, please tag @yggf123 and use the hashtag #siarteriaithyggf*

**Gwyliwch 'Ynys Broc Môr Lili'**
Watch Ynys **Broc Môr Lili'**



**Dywedwch "Blwyddyn Newydd Dda!!"** Say 'Blwyddyn Newydd Dda!'




**Canwch gân Cymraeg**
Sing a Welsh song




**Dawnsiwch i gân "Eira" gan Sŵnami**
Dance along to "Eira " by Sŵnami





**Chwaraewch gêm "Clwc Clwcio" ar Cyw**
Play the "Clwc Clwcio' game on Cyw




**Ewch am dro i ffeindio pethau aur**/ *Go for a walk to find gold things*





Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Newyddion Dosbarth
# Class News

**<u>Dosbarth Branwen</u>**
*Meithrin/Derbyn / Nursery/Reception*

**Waw! Ni allaf gredu bod y tymor cyntaf drosodd yn barod. Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n ddi-stop! Yr hanner tymor yma, rydym wedi bod yn edrych ar wahanol feintiau trwy ddarllen stori 'Y Tri Arth' a chawsom sesiwn blasu uwd hefyd. BLASUS! Yn ogystal â hyn oll, rydym wedi bod yn hynod o brysur yn paratoi ar gyfer ein cyngerdd Nadolig ac yn creu ein haddurniadau Nadolig ein hunain i'w gwerthu i'n teulu.**

*Wow! I can't believe the first term is over already. We have been working non-stop! This half term, we have been looking at different sizes through reading 'The Three Bears' story and we also had a porridge tasting session too. YUM! As well as all of this, we have been extremely busy preparing for our Christmas concert and creating our own Christmas decorations to sell to our family.*




**<u>Dosbarth Dwynwen</u>**
*Blwyddyn 1/2 / Year 1/2*

**Am dymor prysur! Rydyn ni wedi bod yn creu patrymau ac ymarfer ein sgiliau adio yn mathemateg. Tra yn ein gwersi iaith, rydyn ni wedi ysgrifennu cerdyn post, creu poster ac ysgrifennu stori'r geni! Yn ogystal â hwn i gyd, roedd ymarferion am ein sioe Nadolig! Roedd y plant wedi perfformio'n wych ac rydyn ni gyd yn falch iawn.**

*What a busy term! We've been creating patterns and practising our addition in maths. We've also written a postcard, created a poster on the chromebooks and written the nativity story! As well as all this, we even managed to squeeze in practice for the Christmas show! The children gave 2 brilliant performances and we are very proud of them!*



# Newyddion Dosbarth
# Class News

## Dosbarth Gelert

*Blwyddyn 3/4 / Year 3/4*

**Yr hanner tymor yma, rydym ni wedi bod yn ffocysu ar siocled! Cawson ni ein hysbrydoli gan y llyfr Roald Dahl, Charlie a'r Ffatri Siocled, a'r holl gyfuniadau rhyfeddol. Aethom ni ati i ymchwilio, dylunio a chynllunio eitemau siocled i werthu yn y ffair Nadolig. Cawson ni hwyl yn blasu cyfuniadau rhyfedd o siocled gan gynnwys creision a Marmite! Roedden ni hyd yn oed wedi dysgu am ac ysgrifennu bywgraffiad ar John Cadbury. Mae wedi bod yn hanner tymor prysur iawn!**

*This half term we have focused on chocolate! We were inspired by the weird and wonderful creations of Mr Wonka in Roald Dahl's 'Charlie and the Chocolate Factory'. We then researched, designed and planned our own chocolate items to sell in the Christmas Fete. We had a great time taste-testing different combinations with chocolate, including crisps and Marmite! We even learnt about and wrote a biography on John Cadbury. It has been an extremely busy half term indeed!*







## Dosbarth Bendigeidfran

*Blwyddyn 5/6 / Year 5/6*

**Yn ystod yr hanner tymor hwn, yn union fel pob dosbarth arall, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ein sgiliau fel entrepreneuriaid ifanc. Yn ystod y broses cynllunio, dylunio ac adeiladu, rhoddwyd pwyslais ar gostau ac elw a cholled mewn busnes. Fe wnaethon ni fwynhau'r prosiect hwn yn fawr a byddem wrth ein bodd yn gwneud rhywbeth tebyg eto!**

*During this half term, just like every other class, we have been focusing on our skills as young entrepreneurs. During the planning, designing and building process, we placed an emphasis on the costings and profit and loss elements of business. We really enjoyed this project and would love to do something similar again!*

# Newyddion Dosbarth
# Class News





**<u>Canolfan Gwenllian</u>**

*Amrywiol / Various*

**Dyma ddiwedd ein tymor cyntaf yng Nghanolfan Gwenllian! Rydym ni wedi bod yn brysur iawn yn datblygu ein sgiliau llafar ac mae ein hyder ni wedi mynd o nerth i nerth. Rydym ni wedi cael llawer iawn o hwyl wrth weithio trwy nifer fawr o themâu. Dysgon ni sut i ddisgrifio ein hunain a'n teulu, trafod yr ardal leol, a sut i archebu a phrynu bwyd.**
**Cawson ni hwyl yn creu pitsa a bomiau ymolchi wrth drafod ein synhwyrau, a gwnaethon ni hyd yn oed cyflwyno rhagolwg tywydd. Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd perfformio'r stori 'Y Tri Mochyn Bach' i ddisgyblion y feithrin ac wrth gwrs cymryd rhan yn y sioeau Nadolig.**

This is the end of our first term at Canolfan Gwenllian! We have been very busy developing our oracy skills and our confidence has gone through the roof! We have had lots of fun working through a variety of topics and themes. We learnt how to describe ourselves and our families, discuss the local area, and how to order and purchase food.
We had fun creating pizzas and bath bombs whilst talking about our senses, and we even had a go at presenting the weather. One of our highlights was performing the story 'The Three Little Pigs' to the Nursery pupils and of course taking part in the Christmas concerts.



# Dyddiadau Pwysig
# Important Dates

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|---|---|
| 8/1/24 | **Diwrnod HMS (Staff yn Unig)**<br>*INSET Day (Staff Only)* |
| 9/1/24 | **Gweithdy Gwrth-Wahaniaethu Cynradd (Dosbarth Bendigeidfran)**<br>*Primary Anti-Discrimination Workshop (Dosbarth Bendigeidfran)* |
| 23/1/24 | **Criw Craff (Dosbarth Bendigeidfran)**<br>*Crucial Crew (Dosbarth Bendigeidfran)* |
| 25/1/24 | **Diwrnod Santes Dwynwen**<br>*Saint Dwynwen's Day* |
| 25/1/24 | **Clwstwr Pêl-rwyd Rhymni - Rownd 3**<br>*Rhymney Netball Cluster - Round 3* |
| 8/2/24 | **Ymweliad Bardd Plant Cymru**<br>*Welsh-language Children's Laureate Visit* |
| 13/2/24 | **Dydd Mawrth Ynyd**<br>*Shorve Tuesday* |
| 14/2/24 | **Diwrnod San Ffolant**<br>*Valentine's Day* |




Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon


# Bardd Plant Cymru
# Welsh-language Children's Laureate





**Mae Bardd Plant Cymru yn rôl lysgenhadol genedlaethol sy'n anelu at ysbrydoli a grymuso plant a phobl ifanc ledled Cymru drwy lenyddiaeth. Mae Bardd Plant Cymru ar hyn o bryd yn awdur a dramodydd o Gaerdydd, Nia Morais. Cyhoeddwyd ddydd Iau 1 Mehefin 2023, yn Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri mai Nia fyddai'r 18fed Bardd Plant Cymru yn camu i'r rôl. Dechreuodd Nia yn y rôl ym mis Medi 2023, a bydd yn y swydd tan fis Awst 2025.**
**Awdur a dramodydd o Gaerdydd yw Nia Morais. Mae ei gwaith yn aml yn canolbwyntio ar hunanddelwedd, iechyd meddwl a hud a lledrith. Graddiodd o Brifysgol Caerdydd gyda Gradd Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol. Yn 2020, rhyddhaodd ei drama sain gyntaf, Crafangau, fel rhan o brosiect Calon Caerdydd Theatr y Sherman. Ar hyn o bryd mae Nia yn Awdur Preswyl yn Theatr y Sherman ac mae ei drama lawn gyntaf Imrie, a gyd-gynhyrchwyd gan Theatr Frân Wen a Theatr y Sherman, yn teithio Cymru. Roedd Nia yn aelod o banel beirniaid Gwobrau Tir na n-Og yn 2021, a hefyd yn rhan o raglen datblygu awduron Cynrychioli Cymru Llenyddiaeth Cymru yr un flwyddyn. Mae Nia yn ysgrifennu ar gyfer plant ac oedolion.**

*Bardd Plant Cymru (Welsh-language Children's Laureate) is a national ambassadorial role which aims to inspire and empower children and young people across Wales through literature. The current Bardd Plant Cymru is writer and playwright from Cardiff, Nia Morais. It was announced on Thursday 1 June 2023, at Eisteddfod yr Urdd in Llanymddyfri that Nia would be the 18th Bardd Plant Cymru stepping into the role. Nia started in the role in September 2023, and will be in the post un til August 2025.*
*Nia Morais is a writer and playwright from Cardiff. Her work often focuses on self image, mental health and magic. She graduated from Cardiff University with a Masters Degree in Creative Writing. In 2020, she released her first audio play, Crafangau, as part of Sherman Theatre's Heart of Cardiff project. Nia is currently Writer in Residence at Sherman Theatre and her first full play Imrie, co-produced by Frân Wen and Sherman Theatre, is touring Wales over the summer of 2023. Nia was a member of the Tir na n-Og Awards judging panel in 2021, and also part of the Literature Wales' Representing Wales writers development programme the same year. Nia writes for children and adults.*

# Cylchgronnau'r Urdd
# Urdd Magazines








**Mae holl gylchgronnau'r Urdd nawr ar gael am ddim fel fersiynau digidol ar-lein. Ewch i'r wefan isod i gofrestru am eich cylchgronnau am ddim er mwyn darparu deunydd darllen Cymraeg cyffrous i'ch plentyn/plant.**

https://www.urdd.cymru/cy/cylchgronau/

*All the Urdd magazines are now available for free as digital versions online. Go to the website below to register for your free magazines in order to provide your child/children with exciting Welsh reading material.*

https://www.urdd.cymru/cy/cylchgronau/